No.

# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd S.D. Perkes (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, C.A. Cave, C.E.A. Champion, C.M. Cowpe, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, I.A.N. Perry, C. Stallard, E. Williams a M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd R. Godfrey and W.A. Hennessy.

248 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

249 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr I. Buckley a H.M. Payne.

250 COFNODION –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Mai 2023 (Cyfarfod Arbennig) a 25 Mai 2023 fel cofnod cywir.

251 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

252 CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r ceisiadau rheoliadau adeiladu a basiwyd, fel y'u rhestrir yn Adran A yr adroddiad

(2) Y DYLID nodi’r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y’u rhestrir yn Adran B yr adroddiad.

(3) NODI cyflwyno Hysbysiadau o dan Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr a Gymeradwywyd ac ati) 2000, fel y'u rhestrir yn Adran C yr adroddiad.

253 CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH DATBLYGU CYNALIADWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD – BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 13 trwy 44, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

254 APELIADAU (PDC) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r Apêl a dderbyniwyd yn dilyn gwrthodiad y Cyngor i roi caniatâd cynllunio, fel y manylwyd arno yn Adran A yr adroddiad.

(2) NODI'r Apêl Gorfodaeth, fel y manylwyd arni yn Adran B yr adroddiad.

(3) Nodi'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio, fel y manylwyd arnynt yn Adran C yr adroddiad.

(4) Y dylid nodi'r Penderfyniad ar Apêl Gorfodi, fel y manylwyd arno yn Adran D yr adroddiad.

(5) BOD yr ystadegau sy'n ymwneud ag apeliadau am y cyfnod Ebrill 2023 – Mawrth 2024, fel y manylir yn Adran E yr adroddiad, yn cael eu nodi.

255 COED (PDC) –

(i) <u>Rhestr Ddirprwyedig</u>

PENDERFYNWYD – Y DYLID nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 51 a 54, fel y penderfynir gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy o dan bwerau dirprwyedig.

(ii) <u>Cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed Rhif 1, 2023 ar gyfer Coeden Fedwen Arian yng Ngardd Flaen Stablau Hir, Penmarc</u> –

PENDERFYNWYD – Bod Gorchymyn Diogelu Coed Rhif 1 2023 ar y Goeden Fedwen Arian yng ngardd flaen Stablau Hir, Penmarc, yn cael ei gadarnhau heb ei newid.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

O ystyried dyletswyddau’r Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nid oes gan y datblygiad arfaethedig unrhyw oblygiadau arwyddocaol i, nac effaith ar, bobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig.

Ystyrir bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion llesiant y Cyngor a’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nodwyd bod y Cynghorydd Bruce yn gwrthwynebu penderfyniad mwyafrifol y Pwyllgor mewn perthynas â'r mater hwn.